

# OWEN, JOHN DYFNALLT (1873 - 1956), gweinidog (A), bardd, llenor, newyddiadurwr ac Archdderwydd Cymru

**Enw:** John Dyfnallt Owen

**Dyddiad geni:** 1873

**Dyddiad marw:** 1956

**Priod:** Annie Owen (née Hopkin)

**Rhiant:** Angharad Owen

**Rhiant:** Daniel Owen

**Rhyw:** Gwryw

**Galwedigaeth:** gweinidog (A), bardd, llenor, newyddiadurwr ac Archdderwydd Cymru

**Maes gweithgaredd:** Crefydd; Eisteddfod; Llenyddiaeth ac Ysgrifennu; Barddoniaeth

**Awdur:** Geraint Elfyn Jones

Ganwyd 7 Ebrill 1873 yng Nghoedffalde, Llan-giwg, Morgannwg, ar odre'r Mynydd Du, yn fab i Daniel ac Angharad Owen. Collodd ei fam ac yntau'n flwydd oed a magwyd ef gan rieni'i dad. Cafodd ysgol yng Nghwmllynfell ac ar ôl cyfnod byr yn y lofa aeth i Academi Parcyfelfed (Ysgol yr Hen Goleg), Caerfyrddin, ac oddi yno i Goleg Bala-Bangor yn 1894. Bu'n gyfaill mynwesol i [Ben Bowen](#) a beirdd ifainc eraill ei ddydd. Parhaodd y diddordeb mewn eisteddfota drwy ei weinidogaeth yn Nhrawsfynydd (1898-1902) lle bu'n ddylanwad ar [Ellis Humphrey Evans](#) ('Hedd Wyn'); a Deiniolen (1902-05) lle daeth i adnabod [Thomas Gwynn Jones](#) a [William John Gruffydd](#). Aeth wedyn yn weinidog i Sardis, Pontypridd (1905-10) a thra oedd yno enillodd goron eisteddfod Genedlaethol Abertawe yn 1907 ar 'Y greal sanctaidd', wedi dod yn agos iawn yn y Rhyl yn 1904. Priododd, 10 Awst 1904, ag Annie Hopkin o Ystalyfera a bu iddynt ddau o blant. Yn 1908 daeth Dyfnallt yn aelod o'r Gyngres Geltaidd a bu ganddo ddiddordeb yn y gwledydd Celtaidd weddill ei oes. Yn 1910 derbyniodd alwad i Heol Awst, Caerfyrddin lle treuliodd weddill ei weinidogaeth. Yn 1916 aeth yn gaplan yr Y.M.C.A. i Béthune yn Ffrainc a chyhoeddodd lyfryn o gerddi a myfyrdodau unigryw ar ei brofiad sef *Myfyrion a chaneuon maes y tân*. Ysbeidiol ydoedd ei farddoni wedi hyn er iddo gyhoeddi casgliad o gerddi, *Y greal a cherddi eraill* (1946). Troes ei sylw at lenyddiaeth ac olrhain hanes achosion yr Annibynwyr. [Stephen Hughes](#) (1912), '[Tomos Glyn Cothi](#)' (*Y Dysgedydd*, 1933) a'r Tri Brawd o Lanbryn-mair (*Adroddiad Undeb yr Annibynwyr*, 1928) oedd rhai o'i arwyr, ac ysgrifennodd amdanynt nid yn gymaint i groniclo ffeithiau ag i ysbrydoli oes newydd. Penodwyd ef yn olygydd *Y Tyst* yn 1927, swydd yr ymhyfrydai ynddi fel cyfrwng i fynegi ei ddaliadau am heddychiaeth, gwrthimperialaeth, cenedlaetholdeb a Christnogaeth. Yn 1953 dathlwyd ei chwarter canrif fel golygydd â detholiad o'i ysgrifau yn *Ar y t r*, teitl a oedd yn cyfleu'r golygydd fel gwylwr Esea yn gwarchod y ddinas rhag y gelyn. Felly y gwelai ef ei hun. Teithiai'n helaeth i Wlad Pwyl, yr Eidal, y Swistir, Bafaria a Llydaw. Cyhoeddodd lyfr ar ei daith i Lydaw, *O ben tir Llydaw* (1934), dwy gyfrol o ysgrifau ac erthyglau, *Min yr hwyr* (1934) a *Rhamant a rhyddid* (1952), yn ogystal â nifer helaeth o gyfraniadau i'r wasg enwadol a'r *Bywgraffiadur Cymreig*. Pan dorrodd Rhyfel Byd II allan yr oedd yn Danzig, a chyhoeddodd erthyglau megis 'Wythnos yn Danzig', 'Arswyd y Gestapo' a 'Hitleriaeth gartref'. Wedi'r rhyfel rhoddodd nawdd yn ei gartref yng Nghaerfyrddin i Roparz Hemon y llenor Llydewig a ddiangasai cyn ei brawf yn Llydaw. Gwnaethpwyd ef yn gadeirydd Undeb yr Annibynwyr yn 1936 a derbyniodd radd M.A. er anrhydedd gan Brifysgol Cymru yn 1953. Etholwyd ef yn Archdderwydd Cymru yn 1954 yn y Rhyl. Yr oedd bellach yn bedwar ugain mlwydd oed ac yn mwynhau ei ymddeoliad yn Aberystwyth er 1947. Bu farw 28 Rhagfyr 1956, a gwasgarwyd ei lwch ar y Mynydd Du. Nid oedd dim gweniaith yng ngeiriau'r deyrnged iddo yn *Y Cymro* - 'un o'r anwylaf o'r Cymry'.

## Awdur

Geraint Elfyn Jones

## Ffynonellau

Geraint Elfyn Jones, *Bywyd a gwaith John Dyfnallt Owen* (Abertawe 1976)

Emrys Jones yn Derec Llwyd Morgan, *Adnabod deg. Portreadau o ddeg o arweinwyr cynnar y Blaid Genedlaethol* (Dinbych 1977)

*Journal of the Welsh Bibliographical Society* 11, 120-8, am lyfryddiaeth

## Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: [John Dyfnallt Owen](#)

## Dolenni Ychwanegol

VIAF: [71160924](#)

Wikidata: [Q3398467](#)

Dyddiad cyhoeddi: 1997

Hawlfraint Erthygl: <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/> 

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

